cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future

DATGANIAD I'R WASG
Ebrill 2010

Tai Ceredigion yn cael cefnogaeth gweinidog yn eu lansiad

Ymunodd y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio Jocelyn Davies AC â thenantiaid, aelodau bwrdd a staff Tai Ceredigion i ddathlu lansiad swyddogol y gymdeithas tai ar ddydd Iau'r 18fed Mawrth yn Theatr Felinfach, ger Llanbed.

Daeth bron 150 o bobl at ei gilydd, ac roedd y gwesteion yn cynnwys cynghorwyr lleol a chynrychiolwyr y prif gyrff statudol, mudiadau gwirfoddol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Meddai'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio Jocelyn Davies AC: "Mae Tai Ceredigion yn enghraifft wych o sut all trosglwyddo tai i gymdeithasau tai ryddhau cyfalaf ychwanegol a dod â phob un cartref i fyny at Safon Ansawdd Tai Cymru. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud i'r cartrefi hyn yn creu cyfleoedd swyddi

cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future

a hyfforddiant da i bobl leol. Rwyf yn dymuno'n dda i Tai Ceredigion a'u holl denantiaid i'r dyfodol."

Meddai Steve Jones, Prif Weithredwr Tai Ceredigion: "Sefydlwyd Tai Ceredigion gyda'r weledigaeth i fod yn landlord a chyflogwr dwyieithog rhagorol sy'n rhoi tenantiaid yn gyntaf, yn darparu cartrefi o ansawdd ac sydd o fudd i gymunedau a'r economi leol. Rydym wrth ein bodd fod y Dirprwy Weinidog wedi dod atom heddiw yn ein lansiad swyddogol ac i glywed am ein gweledigaeth o sut rydym yn bwriadu darparu gwasanaethau o ansawdd i'n tenantiaid a phrydleswyr, yn ogystal â chynorthwyo'r Cyngor Sir i adfywio cymunedau lleol a chynnal swyddi yn yr ardal."

Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd Tai Ceredigion yn dod â chartrefi tenantiaid i fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) trwy fuddsoddi £40 miliwn yn y pum mlynedd gyntaf, a £136 miliwn dros ddeng mlynedd ar hugain i'w cadw ar y safon honno.

DIWEDD